

Crynodeb Gwirio Ansawdd  
Ward Steffan, Ysbyty Glangwili  
Dyddiad y gweithgarwch: 25 Mai 2021

Dyddiad cyhoeddi: 09 Gorffennaf 2021



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu  
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru  
Llywodraeth Cymru  
Parc Busnes Rhydycar  
Merthyr Tudful  
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163  
E-bost: [AGIC@llyw.cymru](mailto:AGIC@llyw.cymru)  
Gwefan: [www.agic.org.uk](http://www.agic.org.uk)

# Crynodeb Gwirio Ansawdd

## Ein dull gweithredu

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) wiriad ansawdd o bell o Ward Steffan yn Ysbyty Glangwili fel rhan o'i rhaglen o waith sicrwydd. Mae'r ysbyty yn rhan o Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, ac mae'r ward yn gofalu am gleifion ag anghenion meddygol aciwt, gan arbenigo mewn Gastroenteroleg, Oncoleg a Hematoleg.

Mae gwiriadau ansawdd AGIC yn rhan o ddull wedi'i deilwra newydd o ymdrin â gwaith sicrwydd ac maent yn un o blith nifer o ffyrdd y mae'n archwilio'r ffordd y mae gwasanaethau gofal iechyd yn cyrraedd Safonau Iechyd a Gofal 2015 (a rheoliadau perthnasol eraill). Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd y gwiriad ansawdd, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygu a gwella ar lefel weithredol a lefel strategol.

Mae gwiriadau ansawdd yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal mewn gwasanaethau gofal iechyd. Cânt eu cynnal oddi ar y safle yn gyfan gwbl ac maent yn canolbwyntio ar dri maes allweddol; atal a rheoli heintiau, llywodraethu (yn enwedig yn ymwneud â staffio) a'r amgylchedd gofal. Mae'r gwaith yn canolbwyntio ar y trefniadau a roddwyd ar waith i ddiogelu'r staff a'r cleifion rhag COVID-19, ac yn ein galluogi i roi cyngor cyflym a chefnogol ar y dull o weithredu gwasanaethau'n ddiogel yn ystod y pandemig. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am ein trefniadau sicrwydd a'n dull arolygu [yma](#).

Gwnaethom siarad â'r uwch-brif nyrs a'r uwch-reolwr nyrsio ar 25 Mai 2021, a roddodd wybodaeth a thystiolaeth inni am y gwasanaeth. Defnyddiwyd y llinellau ymholi allweddol canlynol:

- Sut rydych yn sicrhau bod digon o staff sydd wedi cael hyfforddiant priodol ar y ward i ddarparu gofal diogel ac effeithiol?
- Sut rydych yn sicrhau bod y risg o haint yn cael ei hasesu a'i rheoli i gadw cleifion, ymwelwyr a staff yn ddiogel?
- Sut rydych yn sicrhau bod amgylchedd y ward yn ddiogel ac yn amddiffyn cleifion rhag niwed, a sut rydych yn sicrhau bod urddas y cleifion yn cael ei gynnal?

---

## Yr Amgylchedd

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried y ffordd y mae'r gwasanaeth wedi ymateb i heriau COVID-19 a'r ffordd y mae'r gwasanaeth wedi dylunio a rheoli'r amgylchedd gofal er mwyn ei gadw mor ddiogel â phosibl i'r cleifion, y staff ac ymwelwyr.

Ymhlith y prif ddogfennau a welwyd gennym roedd:

- Yr asesiadau risg/archwiliadau amgylcheddol diweddaraf
- Canlyniadau'r adolygiad o gwympiadau mwyaf diweddar
- Canlyniadau'r archwiliad atal briwiau pwyso a niwed i feinweoedd mwyaf diweddar.

Hefyd, holwyd cynrychiolwyr y gwasanaeth am y newidiadau y maent wedi'u gwneud er mwyn sicrhau bod y cleifion yn parhau i dderbyn gofal a thriniaeth i ddiwallu eu hanghenion.

### **Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Disgrifiodd yr uwch-brif nyrs y mesurau a roddwyd ar waith gan y ward yn ystod y pandemig er mwyn helpu i ddiogelu'r staff a'r cleifion rhag y risg o drosglwyddo COVID-19. Cafodd capasiti'r ward ei leihau o 19 gwely i 18 gwely er mwyn sicrhau pellter cymdeithasol diogel rhwng y cleifion. Cafodd arwyddion eu harddangos o gwmpas y ward er mwyn atgoffa'r cleifion am bwysigrwydd cadw pellter cymdeithasol. Cafodd ystafelloedd dydd eu troi'n ystafelloedd staff ychwanegol er mwyn galluogi'r staff i gymryd seibiannau'n ddiogel, a chafodd hyfforddiant ar-lein ei gyflwyno i staff yn lle hyfforddiant wyneb yn wyneb.

Gwnaethom edrych ar y data a ddarparwyd i ni cyn y gwiriad ansawdd a gwelsom fod cleifion wedi cwmpo ac wedi cael niwed i feinweoedd a briwiau pwyso ar y ward yn ystod y 12 mis diwethaf. Dywedwyd wrthym fod dadansoddiadau o wraidd y broblem wedi cael eu cynnal ar gyfer y digwyddiadau hyn, a gwelsom fod cynlluniau gweithredu wedi cael eu datblygu i sicrhau bod yr argymhellion a wnaed o ganlyniad i'r cyfryw ymchwiliadau yn cael eu rhoi ar waith. Roedd y camau gweithredu'n cynnwys sicrhau bod pob claf yn cael asesiad risg ar gyfer datblygu briwiau pwyso o fewn chwe awr i gael ei dderbyn i'r ward, ac asesiad risg ar gyfer cwympiadau o fewn pedair awr ar hugain. Dywedwyd wrthym fod llun o seren syrthiedig yn cael ei roi uwchben gwely claf sydd wedi cwmpo'n ddiweddar er mwyn atgoffa'r staff o bwysigrwydd cynnal y protocol ôl-gwympiadau. Rhoddir symbol y seren syrthiedig hefyd wrth ymyl enw'r claf ar y bwrdd 'cipolwg ar ddiogelwch cleifion' i dynnu sylw'r staff at gleifion sy'n wynebu risg uchel o gwmpo. Dywedwyd wrthym fod cwympiadau, a niwed i feinweoedd a briwiau pwyso, yn eitemau sefydlog ar agenda'r cyfarfodydd tîm misol, er mwyn trafod unrhyw achosion ac atgoffa'r staff o'u cyfrifoldebau.

Gwelsom fod hapwiriadau rheolaidd wedi cael eu cynnal gan yr uwch-brif nyrs er mwyn

---

---

sicrhau bod amgylchedd y ward yn ddiogel i'r cleifion, ac i gadarnhau bod y staff yn cadw at yr argymhellion a roddwyd ar waith. Dywedodd yr uwch-brif nyrs wrthym am fenter newydd a roddwyd ar waith ar y ward yn ddiweddar, lle bydd un aelod o staff ar bob sifft yn gyfrifol am gynnal gwiriadau diogelwch cleifion rheolaidd. Mae'r gwiriadau'n cynnwys cadarnhau bod y ward yn rhydd rhag annibendod, bod y cleifion yn gwisgo'r esgidiau priodol a bod y staff yn cymryd camau i sicrhau diogelwch ac atal briwiau pwysau. Dywedodd yr uwch-brif nyrs fod y fenter hon wedi helpu i leihau nifer y cwympiadau a'r niwed i feinweoedd a briwiau pwysu ymhlith cleifion dros y chwe mis diwethaf.

Gwnaethom drafod y trefniadau sydd ar waith i sicrhau bod urddas y cleifion yn cael ei chynnal bob amser. Mae llenni preifatrwydd o gwmpas pob gwely, ac mae'r staff yn sicrhau bod drysau'r ystafelloedd ochr ar gau pan fyddant yn rhoi gofal personol. Dywedwyd wrthym fod annibyniaeth y cleifion yn cael ei hyrwyddo, a bod y cleifion yn rhan o benderfyniadau am eu gofal, lle y bo'n briodol. Mae swyddog cyswllt â theuluoedd wedi bod ar gael bob dydd i siarad â'r cleifion a'u rhieni neu ofalwyr a'u cynorthwyo ag unrhyw anghenion sydd ganddynt.

Yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru, cyfyngwyd ar ymweliadau pan oedd y pandemig yn ei anterth. Dywedwyd wrthym fod yr ysbyty wedi darparu iPads i'r cleifion er mwyn iddynt gadw mewn cysylltiad â'u teulu a'u ffrindiau o bell. Dywedodd yr uwch-brif nyrs wrthym y bu'r cymorth a ddarparwyd gan y swyddog cyswllt â theuluoedd yn hanfodol drwy gydol y cyfnod hwn. Roedd y swyddog yn gyswllt rhwng y staff a'r teuluoedd, gan drefnu galwadau fideo a chyfeirio'r teuluoedd at wasanaethau a allai gynnig help ychwanegol iddynt. Dywedwyd wrthym fod ymwelwyr yn cael dod i'r ward unwaith eto erbyn hyn, ond mae'n rhaid iddynt ffonio ymlaen llaw er mwyn trefnu amser ymweld. Gofynnir i ymwelwyr a oes ganddynt unrhyw symptomau COVID-19 a rhoddir cyfarpar diogelu personol (PPE) iddynt cyn caniatáu iddynt fynd ar y ward.

**Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.**

## Atal a rheoli heintiau

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried sut mae'r gwasanaeth wedi ymateb i heriau COVID-19 a pha mor dda y mae'n rheoli'r risg o haint er mwyn helpu i gadw'r cleifion, y staff ac ymwelwyr yn ddiogel.

Ymhlith y prif ddogfennau a welwyd gennym roedd:

- Cyfraddau heintiau blaenorol ar y ward
- Polisiâu rheoli heintiau cyffredinol a pholisiâu penodol i COVID-19
- Canlyniadau'r archwiliad hylendid dwylo mwyaf diweddar
- Yr asesiadau risg/archwiliadau rheoli heintiau diweddaraf

**Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

---

Disgrifiodd yr uwch-brif nyrs y mesurau a oedd ar waith i helpu i leihau'r risg o drosglwyddo COVID-19 ar y ward. Mae'r cleifion yn cael prawf COVID-19 cyn cael eu derbyn i'r ward, ac yna yn cael eu profi eto bob pum diwrnod. Dywedwyd wrthym fod y ward wedi bod yn gweithredu fel ward 'werdd', sy'n golygu mai dim ond cleifion a gafodd brawf negyddol wedi'i gadarnhau, neu nad oedd ganddynt unrhyw symptomau COVID-19 a oedd yn cael eu derbyn i'r ward. Cafodd cleifion a ddechreuodd ddangos symptomau, neu a gafodd ganlyniad prawf cadarnhaol, eu hynysu a rhoddwyd gofal nyrsio ataliol iddynt, a'u trosglwyddo i ward COVID-19 ar wahân yn yr ysbyty. Dywedwyd wrthym fod profion llif unffordd cyflym ar gael i helpu i nodi'r staff a allai fod yn heintus er nad oes ganddynt symptomau.

Dywedwyd wrthym fod ffolder adnoddau wedi'i chreu a oedd yn cynnwys yr holl ganllawiau a'r holl wybodaeth ddiweddaraf am COVID-19 a ryddhawyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru a'r bwrdd iechyd. Roedd y ffolder yn cael ei chadw ar y ward er mwyn i bob aelod o'r staff ei defnyddio. At hynny, roedd grŵp negeseuon preifat wedi cael ei sefydlu fel bod y staff yn cael gwybod am unrhyw newidiadau neu ddiweddariadau perthnasol yn syth.

Cadarnhaodd yr uwch-brif nyrs y trefniadau canlynol ar gyfer PPE ar y ward. Mae'r staff wedi cael hyfforddiant ar y ffordd gywir o wisgo a diosgo PPE yn ddiogel er mwyn lleihau'r risg o haint. Roedd gwybodaeth am y lefelau o PPE y dylid eu gwisgo wedi'i chynnwys yn y ffolder adnoddau COVID-19. Mae'r staff wedi cael prawf ffitio ar gyfer masg FFP3<sup>1</sup> i'w wisgo wrth roi gofal nyrsio ataliol i gleifion yr amheuir bod ganddynt COVID-19. Caiff cyflenwadau PPE eu harchwilio bob dydd er mwyn sicrhau bod digon ar gael ar y ward.

Cyflwynwyd polisi Rhagofalon Atal a Rheoli Heintiau Safonol (SICPs) a chynllun gweithredu COVID-19 i ni, ac roedd y naill a'r llall yn nodi'r mesurau a roddwyd ar waith ar y ward i leihau'r risg o drosglwyddo COVID-19. Gwelsom fod yr uwch-reolwr nyrsio yn monitro'r gydymffurfiaeth barhaus â'r cynllun gweithredu.

Dywedodd yr uwch-brif nyrs wrthym fod archwiliadau rheoli heintiau, hylendid dwylo a glendid cyffredinol y ward yn cael eu cynnal yn rheolaidd. Mae canlyniadau'r archwiliadau hyn yn cael eu casglu fel cyfres o ddangosyddion ansawdd ar gyfer y ward a llunnir adroddiad arnynt bob chwarter - gwelsom fod sgoriau cyffredinol yr archwiliadau wedi gwella dros y misoedd diwethaf, a chyflawnwyd sgôr o 96% ym mis Mai 2021.

Gwelsom fod y gyfradd gydymffurfio â hyfforddiant gorfodol ar atal a rheoli heintiau yn uchel ymhlith yr aelodau o'r staff sy'n gweithio ar y ward.

### **Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:**

Er gwaethaf y mesurau a roddwyd ar waith ar y ward i helpu i ddiogelu'r staff a'r cleifion rhag

---

<sup>1</sup> Masgiau wyneb sy'n hidlo yw masgiau wyneb FFP3. Cânt eu defnyddio mewn amgylchiadau penodol yn dilyn asesiad risg ac yn unol â chanllawiau ar atal a rheoli heintiau. Rhaid i'r staff gael prawf ffitio er mwyn sicrhau bod y masg yn ffitio'r wyneb yn iawn a'i fod yn gweithio mor effeithlon ag sy'n ofynnol.

---

y risg o drosglwyddo COVID-19, dywedwyd wrthym y bu dau frigiad o COVID-19 ymhlith y cleifion a'r staff yn ystod y 12 mis diwethaf. Daeth yr ymchwiliadau i'r casgliad ei bod yn debygol bod y brigiad cyntaf wedi'i achosi gan staff a chleifion asymptomatig, a oedd yn cario COVID-19 ond nad oeddent yn dangos nac yn profi unrhyw symptomau. Cafodd yr ail frigiad ei briodoli i glaf a dderbyniwyd i'r ward o fwrdd iechyd arall. Cafodd y claf brawf COVID-19 negyddol cyn cael ei dderbyn i'r ward, ond wedyn cafodd brawf positif ar ôl ychydig ddiwrnodau ar y ward. Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd roi sicrwydd i AGIC fod gwersi wedi'u dysgu o'r ymchwiliadau i'r brigiadau, ac o ran y camau a gymerwyd wedyn i sicrhau bod modd lleihau achosion o'r fath yn y dyfodol.

## Llywodraethu / Staffio

Fel rhan o'r safon hon, gofynnodd AGIC i gynrychiolwyr y gwasanaeth sut roeddent wedi addasu eu gwasanaeth yn sgil effaith COVID-19. Gwnaethom ystyried a yw'r trefniadau rheoli yn sicrhau bod digon o staff sydd wedi cael hyfforddiant priodol ar y ward i ddarparu gofal diogel ac effeithiol.

Ymhlith y prif ddogfennau a welwyd gennym roedd:

- Data ar achosion o salwch ymhlith y staff a swyddi gwag
- Y cyfraddau cwblhau cyfredol ar gyfer hyfforddiant gorfodol
- Y cyfraddau cwblhau cyfredol ar gyfer Adolygiadau Arfarnu Perfformiad a Datblygu (PADRau)

### Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Dywedwyd wrthym am y trefniadau sydd ar waith i helpu i sicrhau bod cymysgedd priodol o sgiliau a niferoedd digonol o staff ar y ward yn ystod pob sifft. Caiff rotâu eu llunio chwe wythnos ymlaen llaw, yn seiliedig ar ddewisiadau gweithio'r staff ac absenoldebau staff, megis gwyliau neu absenoldeb oherwydd salwch. Os bydd angen defnyddio staff banc neu staff asiantaeth, caiff y rhain eu trefnu ar sail bloc lle y bo'n bosibl er mwyn helpu i gynnig parhad o fewn y tîm nyrsio. Yr uwch-reolwr nyrsio sy'n gyfrifol am gymeradwyo pob rota ar ôl sicrhau bod pob sifft yn cynnwys y cymysgedd sgiliau priodol ymhlith y staff a bod gofynion Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016<sup>2</sup> yn cael eu bodloni. Dywedwyd wrthym fod lefelau staffio yn cael eu monitro a'u trafod mewn cyfarfodydd rheoli a sgrymiau diogelwch dyddiol er mwyn sicrhau bod y lefelau staffio ar y ward yn briodol.

Wrth edrych ar y dystiolaeth a ddarparwyd i ni cyn y gwiriad ansawdd, gwnaethom nodi bod lefelau salwch staff yn isel ar y ward ar hyn o bryd. Gwnaethom nodi bod rhai swyddi gwag. Fodd bynnag, gwelsom fod cynllun gweithredu ar waith i helpu i lenwi'r swyddi gwag yn ogystal â rhoi mesurau ar waith i gadw staff.

---

<sup>2</sup> <https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2016/5/enacted/welsh>

---

Disgrifiodd yr uwch-brif nyrs y cyfleoedd sydd ar gael i'r staff gael hyfforddiant perthnasol. Caiff amser ei neilltuo i'r staff yn ystod eu sifftiau i gwblhau hyfforddiant a chynnal eu cymwyseddau. Caiff anghenion hyfforddi staff eu nodi yn ystod Adolygiadau Perfformiad, Arfarnu a Datblygu (PADRs). Cynhaliwyd ymarfer dadansoddiad o anghenion hyfforddiant hefyd er mwyn canfod anghenion hyfforddiant ehangach staff y ward. Dywedwyd wrthym fod rhywfaint o hyfforddiant wyneb yn wyneb wedi'i atal yn ystod y pandemig. Cafodd cynllun gweithredu ei roi ar waith i godi'r lefelau cyffredinol o gydymffurfiaeth y staff â'r hyfforddiant gorfodol. Er gwaethaf yr heriau hyn, gwelsom fod cyfraddau cwblhau hyfforddiant gorfodol ym mis Mai 2021 yn uchel, sef 90 y cant.

Dywedwyd wrthym fod cyfleoedd datblygu eraill wedi'u cynnig i staff y ward. Cyn hyn, roedd staff a oedd am gael profiad o weithio ar wardiau eraill â setiau sgiliau clinigol gwahanol wedi cael cynnig secondiadau, ac wedi manteisio arnynt. Mae gweithwyr cymorth gofal iechyd hefyd wedi cael cynnig rolau 'hyrwyddwyr' er mwyn eu helpu â'u cynnydd; mae staff sy'n gwirfoddoli i wneud hynny yn cael cyfle i ddatblygu ffyrdd newydd o wella diogelwch y cleifion, fel sicrhau bod cleifion yn cynnal hylendid y geg tra byddant yn aros ar y ward.

Dywedodd yr uwch-brif nyrs wrthym fod y staff wedi teimlo'n bryderus weithiau wrth weithio yn ystod y pandemig. Dywedwyd wrthym fod sesiynau llesiant wedi cael eu cynnig i'r staff fel menter gadarnhaol i helpu i gefnogi eu llesiant.

**Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.**

---



# Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi meysydd i'w gwella yn ystod ein gwiriad ansawdd a lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth ddweud wrthym am y camau a gymerwyd i fynd i'r afael â'r rhain, darperir cynllun gwella yn rhoi manylion ar ddiwedd y crynodeb gwirio ansawdd hwn.

Lle mae angen cynllun gwella, dylid:

- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r meysydd i'w gwella a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r gwiriad ansawdd.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r gwiriad ansawdd hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r meysydd i'w gwella yn systemig ar draws ardaloedd eraill yn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Os na nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella yn ystod y gwiriad ansawdd hwn, ni fydd angen cynnwys cynllun gwella, a dim ond yr adroddiad yn crynhoi'r gwiriad ansawdd a fydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# Cynllun gwella

Lleoliad: Ysbyty Glangwili

Ward: Ward Steffan

Dyddiad y gweithgarwch: 25 Mai 2021

Mae'r tabl isod yn cynnwys gwelliannau a nodwyd yn ystod y Gwriad Ansawdd, lle rydym yn ei gwneud yn ofynnol i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Noder, disgwylir i bob cam gweithredu gael ei gwblhau o fewn tri mis i'r Gwriad Ansawdd a dylid cyflwyno fersiwn derfynol o'r Cynllun Gwella drwy Objective Connect ar ôl iddo gael ei gwblhau.

Rhif Cyfeirnod	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/Rheoliad	Cam Gweithredu'r Gwasanaeth	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
1	Rhaid i'r bwrdd iechyd roi sicrwydd i AGIC fod gwersi wedi'u dysgu o'r ymchwiliadau i'r brigiadau o COVID-19 a gafwyd ar y ward, ac o ran y camau a gymerwyd wedyn i sicrhau bod modd lleihau achosion o'r fath yn y dyfodol.	Safon 2.4 Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi	Adnabod symptomau ehangach COVID-19 er mwyn sicrhau bod cleifion yn cael eu hynysu a'u profi'n gynnar. <ul style="list-style-type: none"><li>Cynnal profion COVID-19 rheolaidd ar gyfer y cleifion - caiff pob claf ei brofi ar adeg ei dderbyn ac yna bob 5 diwrnod. Caiff swabiau eu cynhyrchu gan y ganolfan brofi a'u dosbarthu / casglu bob dydd er mwyn sicrhau bod y profion yn cael eu cynnal yn gywir ac yn amserol.</li><li>Profion llif unffordd i'r staff.</li></ul>	Uwch-brif Nyrs y Ward / Prif Nyrsys y Ward  Uwch-brif Nyrs y Ward  Uwch-Brif Nyrs y	Cwblhawyd  Cwblhawyd  Cwblhawyd

		<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cau'r ward yn amserol os bydd achosion a amheuir, gan ystyried symptomau newydd yr amrywiolyn newydd. Ceir enghraifft o gamau gweithredu cynnar a gymerwyd ar 17/06/2021 i gau'r ward pan oedd achos o gleifion symptomatig. Cafodd pob claf ganlyniad prawf negatiff a chafodd y ward ei hailagor 48 awr ar ôl i'r symptomau amlygu'u hunain. Yn gysylltiedig ag atal a rheoli heintiau.</li> <li>• Prosesau glanhau mwy trylwyr ar y ward ac ym mhob ardal, gan gynnwys glanhau manau sy'n cael eu cyffwrdd yn aml yn amlach.</li> <li>• Sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cadw pellter cymdeithasol, yn enwedig ar gyfer manau cyffredin fel ardaloedd gorffwys. Archwiliadau wedi'u cwblhau ar y ward.</li> <li>• Mae'r staff yn parhau i gadw at y polisi gwisg, o ran cyrraedd a gadael yn eu dillad eu hunain. Mae cyfleusterau newid ar gael. Mae prif nyrsys y ward yn cynnal hapwiriadau.</li> <li>• Dilynwyd y canllawiau ar atal a rheoli heintiau o ran PPE. Caiff y stoc o PPE ei monitro'n ddyddiol.</li> </ul>	<p>Ward / Uwch-reolwr Nyrsio / Atal a Rheoli Heintiau</p> <p>Uwch-brif Nyrs y Ward / Goruchwyliwr Gwasanaethau Gwesty</p> <p>Uwch-brif Nyrs y Ward / Prif Nyrsys y Ward</p> <p>Uwch-brif Nyrs y Ward / Prif Nyrsys y Ward</p> <p>Uwch-brif Nyrs y Ward / Prif Nyrsys y Ward</p>	<p>Cwblhawyd</p> <p>Cwblhawyd a chynhelir gwaith monitro parhaus</p> <p>Cwblhawyd a chynhelir gwaith monitro parhaus</p> <p>Cwblhawyd a chynhelir gwaith monitro parhaus</p>
--	--	--	---	--

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar

waith.

Enw: Lisa Harries, Uwch-brif Nyrs y Ward  
Louisa Standeven, Uwch Reolwr Nyrsio

Dyddiad: 23 Mehefin 2021